# Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Er i Weinidogion Cymru fod â'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn ers tro, cymharol ychydig fyddai yna i'w ennill o wneud hynny tra bo'r gohiriad presennol ar achosion meddiant yn ei le. Dim ond wrth i'r gohiriad ddod i ben ar 23 Awst (penderfyniad nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer drosto) y daeth y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol. Er mwyn cael llai o achosion meddiant yn ystod yr wythnosau a'r misoedd ar ôl codi'r gohiriad, daeth Gweinidogion Cymru i'r casgliad ei bod yn hanfodol eu bod yn gweithredu'n ddi-oed i estyn cyfnodau hysbysu. Bydd gwneud cyfnodau hysbysu o chwe mis yn ofynnol yn helpu i lefelu unrhyw don o ran troi pobl allan o'u cartrefi ac yn rhoi mwy o amser i osgoi hynny, naill ai wrth i landlordiaid a thenantiaid gytuno ar ffordd arall o ddatrys y mater, neu wrth i denantiaid ddod o hyd i gartref addas arall.

Pe bai Gweinidogion Cymru wedi penderfynu aros 21 o ddiwrnodau cyn i'r Rheoliadau ddod i rym, byddai wedi caniatáu cyfnod ychwanegol sylweddol pan fyddai modd dyroddi hysbysiadau ar gyfer cyfnodau hysbysu o dri mis yn unig. Yn wir, gallai rhoi rhybudd sylweddol ymlaen llaw am y newid i gyfnodau hysbysu fod wedi peri cynnydd yn nifer yr hysbysiadau a ddyroddwyd yn union cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Mae'n bosibl y byddai hyn wedi tanseilio diben gwneud y Rheoliadau yn sylweddol.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym o'r farn fod y darpariaethau yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Rheoliadau yn cynrychioli ymateb cymharol fyrdymor i broblemau sylweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr wythnosau diweddar. Dim ond ar ôl iddi ddod yn glir nad yw'r gohiriad ar achosion llys yn debyg o gael ei estyn ymhellach y daeth hi'n amlwg ei bod yn bwysig lleihau ton bosibl o hawliadau meddiant, unwaith y daw'r gohiriad presennol ar achosion i ben. Roedd rhaid i Weinidogion Cymru weithredu ar fyrder i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Nid oedd hyn yn gadael digon o amser i gynnal asesiad effaith rheoleiddiol nac ymgynghori â rhanddeiliaid. Yn wir, mae'n bosibl y byddai ymgynghori â landlordiaid a'r cyrff sy'n eu cynrychioli wedi arwain at gynnydd mewn cyflwyno hysbysiadau cyn unrhyw newid. Fel y nodwyd uchod, roedd angen i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflym er mwyn sicrhau na châi diben y Rheoliadau ei danseilio.